# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiadd (SLC(3) 22-08)

**Dyddiad: 14 Hydref 2008**
**Amser: 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 23 Medi 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Mark Isherwood AC, Alun Davies AC a Joyce Watson AC.

### Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y Weithdrefn Negyddol)

SLC201 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Y Weithdrefn Negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Medi 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Medi 2008. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2008. Gwahoddodd y pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 (viii) (ei fod yn defnyddio iaith ryw-benodol). Roedd y Llywodraeth yn derbyn y pwynt hwn ond yn honni y drafftiwyd y diwygiadau ar y sail hon er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw amheuaeth ar y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli yn y ddwy set o Reoliadau (gweler Atodiad 1 - adroddiad y pwyllgor ac ymateb y Llywodraeth).

Er gwaethaf ymateb y Llywodraeth, mae'r pwyllgor yn credu bod y pwynt adrodd yn ddilys; mae enghreifftiau o iaith ryw-benodol wedi'u hadrodd gan y pwyllgor hwn a'i ragflaenwyr ers 1999 a diwygiwyd y Rheolau Sefydlog yn yr Ail Gynulliad i gynnwys iaith ryw-benodol fel pwynt adrodd ffurfiol. Wrth nodi sylwadau'r Llywodraeth ynglŷn â diwygio deddfwriaeth cyn cyfnod datganoli, mae'r pwyllgor yn credu y dylid ystyried drafftio gwelliannau drwy ddefnyddio iaith nad yw'n benodol o ran rhyw.

Nododd y pwyllgor hefyd y cafodd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 eu diwygio'n sylweddol ac mae'n argymell y dylid ystyried eu cydgrynhoi (byddai hyn hefyd yn golygu y byddai'n bosibl eu drafftio drwy ddefnyddio iaith nad yw'n benodol o ran rhyw drwy'r rheoliadau cyfan).

SLC204 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Y Weithdrefn Negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 2 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2008.

Ceir Adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y Weithdrefn Negyddol) yn Atodiadau 1-2 i'r Adroddiad hwn**.**

**Eitemau eraill o fusnes**

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**14 Hydref 2008**

## Atodiad 1

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-22-08)**

### SLC201

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 ("Rheoliadau 1986") a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("Rheoliadau 1997"). Mae Rheoliadau 1986 yn

cynnwys darpariaeth ar gyfer trefnu gwasanaethau offthalmig cyffredinol o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Rheoliadau 1997 yn cynnwys darparu ar gyfer cynllun taliadau sydd i'w gwneud gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol trwy gyfrwng system dalebau mewn perthynas â chostau a dynnir gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg, ac â chyflenwi, ailosod a thrwsio teclynnau optegol. Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod diffiniad newydd yn Rheoliad 2 (1) i Reoliadau 1986 (dehongli) ac yn diwygio rheoliad 13 (cymhwystra ar gyfer profion golwg) i ddarparu y bydd person sy'n cael lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm (neu aelod o deulu'r person honno) yn gymwys i gael prawf golwg y GIG. Mae Rheoliad 3 yn mewnosod diffiniad newydd yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli) i Reoliadau 1997 ac yn diwygio rheoliad 8 (cymhwystra - cyflenwi teclynnau optegol) i ddarparu y bydd person sy'n cael lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm (neu aelod o deulu'r person hwnnw) yn gymwys i gael taleb mewn perthynas â theclyn optegol.

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 (viii) (ei fod yn defnyddio iaith ryw-benodol)

Mae Rheoliad 2 (3) (b) (sy'n diwygio Rheoliadau 1986), is-baragraffau (o) a (p) yn y drefn honno sydd i gael eu mewnosod, yn defnyddio iaith ryw-benodol:-

Mae Rheoliad 2 (3) (b) (o) yn darllen "**he** is in receipt of income-related employment and support allowance" ac mae (p) yn darllen "**he** is a member of the same family as a person in receipt of income-related employment and support allowance".

Mae Rheoliad 3 (3) (b) (sy'n diwygio Rheoliadau 1997), is-baragraffau (o) a (p) yn y drefn honno sydd i gael eu mewnosod, yn defnyddio iaith ryw-benodol:-

Mae Rheoliad 3 (3) (b) (o) yn darllen "**he** is in receipt of income-related employment and support allowance" ac mae (p) yn darllen "**he** is member of the same family as a person in receipt of income-related employment and support allowance".

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**14 Hydref 2008**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod y diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 a wneir gan y Rheoliadau hyn yn y testun Saesneg yn cynnwys iaith ryw-benodol.

Er hynny, drafftiwyd y diwygiadau ar y sail hon er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw amheuaeth ar y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli yn y ddwy set o Reoliadau.

Cydnabyddir wrth gwrs ei bod yn bosibl gwneud diwygiadau niwtral o ran y rhywiau i offerynnau cyn cyfnod datganoli, ond nid yw'n bosibl gwneud hynny ym mhob achos heb wneud diwygiadau sylweddol i'r testun ac nid oedd amser yn caniatáu hyn o dan yr amgylchiadau ar gyfer yr offeryn presennol.

Mae'r ddau reoliad sef rheoliad 13(2) o Reoliadau 1986 a rheoliad 8(3) o Reoliadau 1997 yn cynnwys rhestrau o bersonau sydd â hawl i gael buddiannau penodol o dan y GIG. Mae'r ddwy set o Reoliadau wedi'u drafftio mewn iaith rhyw benodol yn Saesneg (yn unol â darpariaethau Deddf Dehongli 1978) a byddai ychwanegu cofnod sy'n cyfeirio at "he or she" at restr sy'n cynnwys "he" yn unig yn debygol o beri dryswch i ddarllenydd lleyg ynghylch cymhwyster y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli.

## Atodiad 2

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-22-08)**

### SLC204

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau") drwy ddiwygio'r diffiniad o "teulu" yn y prif Reoliadau ac i ddarparu y bydd gan berson sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm hawl i gael ad-daliad llawn o daliad GIG a thaliad llawn o dreuliau teithio GIG heb fod angen iddo hawlio taliad neu ad-daliad o'r fath.

### Gweithdrefn:  Negyddol

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol)

Mae Rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau yn diwygio'r diffiniad o "teulu" drwy gyfeiriad at yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 y Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008. Mae testun Cymraeg y Rheoliadau yn gyfieithiad llythrennol o'r testun Saesneg. Fodd bynnag, gan fod y Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ynglŷn â meysydd annatganoledig (nawdd cymdeithasol) yr oeddent, o ganlyniad, wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Saesneg yn unig. Lle mae termau'n cael eu diffinio mewn deddfwriaeth y Cynulliad drwy gyfeirio at gyfundrefn enwau a ddefnyddir mewn dogfennau uniaith yr arfer fu nodi fod i'r term Cymraeg yr ystyr a roddir i'r term Saesneg yn y ddogfen benodo.

Cydnabyddir mai camgymeriad drafftio technegol yw hwn sy'n annhebyg o gamarwain y darllenydd ac na fyddai'n gofyn am gael ei gywiro'n ddi-oed

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**14 Hydref 2008**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod yr adroddiad yn codi mater sydd o natur dechnegol na fydd yn effeithio ar y defnydd o'r Rheoliadau gan y darllenydd.

Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno â'r pwynt adrodd.

Mae'r diwygiad sydd yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "teulu" yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007) lle y cyfeirir y darllenydd at Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, mae'r diffiniad yn mynd rhagddo i restru eithriadau i'r rheol gyffredinol ac mae'r diwygiad hwn yn ychwanegu eithriad arall o'r fath.

Cyfieithwyd y diffiniad gwreiddiol i'r Gymraeg ac felly barnwyd y dylai unrhyw ychwanegiad neu ddiwygiad fod hefyd yn Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r diwygiad yn cyfeirio'r darllenydd at Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008 ond nid ydynt yn dyfynnu'n uniongyrchol ohonynt.